



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Cylch Meithrin Llanuwchllyn
Y Neuadd Bentref
Llanuwchllyn
Gwynedd
LL23 7TT
United Kingdom**

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014

gan

Wi Williams

ar ran

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Ⓜ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 05/08/2014

Cyd-destun

Mae Cylch Meithrin Llanuwchllyn yn lleoliad meithrin cofrestredig sy'n cyfarfod yn neuadd y pentref, Llanuwchllyn. Mae'n darparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i blant Llanuwchllyn a'r ardal wledig o'i gwmpas.

Mae'r lleoliad yn derbyn plant o bob gallu a chefnidir i'r sesiynau. Yn ystod yr arolygiad, nid oedd yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol nac o dras ethnig yn mynychu'r lleoliad. Cymraeg yn brif iaith y cartref i bron pob plentyn.

Mae'r lleoliad yn darparu sesiynau o ddwy awr a hanner ar gyfer plant dwy a hanner i bedair oed am bedwar prynhawn yr wythnos. Mae mwyafrif y plant yn mynychu dosbarth meithrin yr ysgol gynradd yn y boreau a'r lleolaid yn y prynhawn. Mae pedwar o'r blant tair oed yn cael eu hariannu gan yr awdurdod lleol. .

Mae plant yn cael eu haddysgu gan arweinydd a dwy ymarferydd sydd a chymhwyster sy'n berthnasol i'r Cyfnod Sylfaen. Mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers Ebrill 2014.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yng Mawrth 2013 a chan Estyn yn Nhachwedd 2009.

Crynodeb

Perfformiad presennol y lleoliad	Da
Rhagolygon gwella'r lleoliad	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad yn dda oherwydd bod:

- amrywiaeth o brofiadau dysgu yn ennyn diddordeb a dychymyg pob plentyn;
- darpariaeth drwyadl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd;
- pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae ac ar ddatrys problemau ymarferol;
- gan ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o bob plentyn;
- deilliannau asesu yn cael eu defnyddio'n bwrpasol i gynllunio ar gyfer y dyfodol;
- darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant;
- lleoliad yn gymuned gynhwysol lle mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar; a
- chyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu.

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'n dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd weledigaeth glir ar gyfer datblygiad y lleoliad;
- ymarferwyr yn gweithio'n effeithiol iawn fel tîm;
- y pwyllgor rheoli yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau yn gydwybodol iawn;
- hunan-arfarnu'n cael ei ddefnyddio'n effeithiol i wella safonau a darpariaeth;
- nifer o bartneriaid yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles plant;
- staff ac adnoddau yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo dysgu plant; a'r
- lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

Argymhellion

1. Rhoi gwell cyfleoedd i blant ddysgu am draddodiadau a diwylliannol eraill.
2. Sicrhau bod llais a barn plant yn cael eu clywed a'u gwerthfawrogi'n rheolaidd.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad/ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Da

Profiadau dysgu: Da

Trwy ddarparu amrywiaeth dda o brofiadau dysgu mae ymarferwyr yn llwyddo i sbarduno diddordeb a dychymyg pob plentyn a sicrhau eu hymglymiad i'w dysgu. Mae'r profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau ymdriniaeth addas dros gyfnod â phob maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm yn eang, cytbwys a pherthnasol i oedran a galluoedd plant. Mae'r arfer o gyflwyno'r cwricwlwm drwy themâu yn arwain at brofiadau dysgu cydlynus sy'n adeiladu'n systematig ar fedrau a gwybodaeth flaenorol plant. Enghraifft dda o hyn yw'r amrywiaeth eang o brofiadau dysgu dychmygus sydd wedi deillio o'r thema gyfredol ar 'Yr Ardd.'

Trwy ddefnyddio amrywiaeth o drefniannau dosbarth, mae ymarferwyr yn gofalu bod cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau sy'n cael eu dewis gan y plant thasgau ffocws sydd o dan gyfarwyddyd yr ymarferwyr sy'n canolbwyntio ar addysgu medrau penodol.

Mae darpariaeth drwyadl ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant. Mae ymarferwyr yn gyson yn annog plant i wrando'n ofalus ar ei gilydd ac ar oedolion ac i gyfrannu'n hyderus yn ystod sesiynau torfol. Mae arfer yr ymarferwyr o gyd-chwarae gyda phlant yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt sgwrsio'n anffurfiol gydag unigolion a grwpiau bychain o blant. Mae'r amrywiaeth o lyfrau sy yn y gornel ddarllen yn denu diddordeb llawer o'r plant ac yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr iddynt ymddwyn fel darllenydd. Yn yr ardal graffeg, caiff plant eu hannog i wneud marciau i bwrpas gydag amrediad o ddeunyddiau megis pinnau ffelt a chreionau ac i ddatblygu eu medrau 'motor.'

Mae ymarferwyr yn manteisio ar bob cyfle i ddatblygu medrau rhifedd plant, boed hynny trwy gydgyfrif faint o blant sy'n bresennol neu trwy ganu rhigymau rhif. Mae gweithgareddau megis chwarae gemau dis neu ddsbarthu gwrthrychau yn y cafn tywod, yn cryfhau medrau rhifedd y plant yn sylweddol.

Mae darpariaeth addas ar gyfer datblygu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) plant.

Addysgu: Da

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel o bob plentyn ar draws yr holl ystod gallu. Trwy gyd-gynllunio manwl, mae ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu profiadau dysgu ysgogol a heriol sy'n

sicrhau ymglymiad pob plentyn. Mae tasgau yn cynnwys her addas ac yn rhoi pwyslais cryf ar ddysgu trwy chwarae ac ar ddatrys problemau ymarferol. Trwy ymyrraeth bwrpasol a holi medrus, mae ymarferwyr yn herio syniadau'r plant ac yn gwella eu dysgu. Wrth ymuno yn y chwarae, mae'r ymarferwyr yn gallu sicrhau bod plant yn manteisio i'r eithaf ar yr hyn sydd gan bob gweithgaredd i'w gynnig. Pan gyfyd achosion prin o ymddygiad annerbyniol neu anghydfod rhwng unigolion, mae ymarferwyr yn eu datrys yn gadarn a sensitif.

Mae'r anogaeth a gaiff plant gan ymarferwyr i ddilyn llwybrau dysgu eu hunain yn gryfder. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd aeth un grŵp ati i addasu siop y dosbarth yn gorlan cneifio defaid.

Mae'r berthynas waith clos iawn sydd rhwng oedolion a phlant yn sicrhau bod gan staff ymwybyddiaeth dda o anghenion personol ac addysgol pob plentyn. Mae'r ymarferwyr yn asesu plant yn rheolaidd ac yn gynhwysfawr ac yn cofnodi arsylwadau ac asesiadau'n ofalus i fesur cynnydd plant. Maent yn gwneud defnydd pwrpasol o wybodaeth asesu i gynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol. Mae trefniadau trylwyr ar gyfer cynnwys rhieni yn asesiadau eu plant a sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda am gynnydd eu plant a'r hyn y gallant hwy ei wneud i'w helpu i wella.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod amgylchedd cynnes a chroesawgar yn y lleoliad a bod anghenion pob unigolyn yn cael eu diwallu. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed iach.

Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol plant. Yn ystod eu hymwneud dyddiol â phlant, mae ymarferwyr yn pwysleisio'n gryf yr angen i bawb fod yn garedig tuag at ei gilydd, i fod yn onest a theg ac i ymddwyn mewn ffordd gyfrifol. Mae hyn yn help mawr i'r plant ddysgu gwahaniaethu rhwng yr hyn sy'n iawn a'r hyn sydd ddim yn iawn. Mae'r cyfleoedd rheolaidd i blant trwy 'Helpwr Y Dydd' i ymgymryd â chyfrifoldebau ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch eu dysgu, yn cyfrannu'n arwyddocaol tuag at eu datblygiad personol a chymdeithasol.

Er bod egwyddorion a gwerthoedd clir yn cael eu hyrwyddo'n gyson yn y lleoliad, ychydig o gyfleoedd sydd i godi ymwybyddiaeth plant o gredoau a thraddodiadau cymdeithasol a diwylliannol eraill a welir yng Nghymru.

Mae trefniadau addas yn y lleoliad ar gyfer ailgylchu a lleihau sbwriel.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn darparu arweiniad clir iddynt yn ystod sesiynau. Mae'r arweinydd yn gwybod sut i gael mynediad at gymorth proffesiynol os cyfyd unrhyw bryder ynghylch lles neu ddatblygiad plentyn.

Mae'r trefniadau sefydlu effeithiol yn helpu plant i ymgartrefu'n gyflym a didrafferth yn y lleoliad. Caiff anghenion dysgu plant eu nodi'n fuan pan fyddant yn ymuno â'r lleoliad a bydd ymarferwyr yn gwneud yn siŵr bod yr anghenion hyn yn cael eu bodloni.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff pob plentyn hawl cyfartal i'r holl feysydd dysgu a'r gweithgareddau ar ddarperir ar eu cyfer. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu agweddau goddefgar ac ar sicrhau bod plant ac aelodau staff yn rhydd o unrhyw aflonyddwch. Nodweddion amlwg iawn o'r lleoliad yw'r amgylchedd ddysgu ddiddorol a grëir a'r cyfleoedd cyson a gaiff plant i ddatblygu gwerthoedd ac agweddau cadarnhaol.

Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae cyflenwad da o adnoddau o ansawdd da ym mhob maes dysgu gan gynnwys TGCh. Maent yn cael eu gweddu'n ofalus i ddatblygiad ac anghenion dysgu pob unigolyn. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd dychmygus o'r ardaloedd sydd y tu allan i'r neuadd i gyfoethogi profiadau dysgu plant. Caiff adnoddau yn y gymuned leol eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adeilad a'r ystafelloedd o ansawdd da ac yn cael eu defnyddio'n helaeth gan y lleoliad.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae'r arweinydd yn llwyddo i greu ethos yn y lleoliad lle mae plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad, mae'n gosod disgwyliadau uchel ac yn herio pawb i ymdrechu orau y gallant a chymryd rhan weithredol yn natblygiad y lleoliad. O ganlyniad, mae synnwyr cryf o ddiben sy'n hyrwyddo a chynnal gwelliannau. Mae staff yn cyd-rannu gwerthoedd cytûn am ddysgu, ymddygiad a pherthynas ac yn gwneud cyfraniad arwyddocaol i ansawdd yr addysgu a'r ddarpariaeth.

Mae rheolaeth y lleoliad yn effeithiol. Mae sesiynau'n rhedeg yn llyfn a phob aelod staff yn hollol sicr o'u rôl a'u cyfrifoldebau. Mae nodau a pholisïau clir sy'n canolbwyntio ar anghenion plant ac yn cael eu deall a'u gweithredu gan bob ymarferwr.

Mae trefniadau addas ar gyfer gwerthuso ymarferwyr. Mae hyn yn arwain at dargedau cytûn, yn arbennig o ran pennu anghenion datblygiad proffesiynol pellach.

Mae aelodau'r pwyllgor rheoli yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol ac effeithiol. Maent yn gweithredu mewn modd cyfansoddiadol ac mae perthynas waith agos rhyngddynt a'r lleoliad. Mae ganddynt rôl weithredol yn y prosesau hunan-arfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant.

Mae'r lleoliad wedi ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol megis y Cyfnod Sylfaen ac asesu ar gyfer dysgu. Mae hyn wedi arwain at welliannau mewn safonau a chynllunio.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn gwybod yn dda am gryfderau'r lleoliad ac mae ganddynt ddealltwriaeth glir ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud i'w wella. Maent yn hunan-arfarnu'n barhaus ac yn archwilio ffyrdd i wella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Er bod hunan-arfarnu'n rhoi ystyriaeth ofalus i farn rhieni nid oes trefniadau cyffelyb ar gyfer gwranddo ar lais a barn plant. Mae'r lleoliad yn manteisio'n sylweddol ar gyngor proffesiynol athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol gyda'r arweinydd a'r staff yn gweithredu'n bwrpasol ar unrhyw argymhellion sy'n dilyn ei hymweliadau. Mae hyn yn sicrhau bod trefniadau effeithiol ar gyfer cynnal arfer dda a rhoi newid ar waith mewn meysydd sydd angen gwelliant.

Mae blaenoriaethau a ddaw i'r amlwg trwy hunan-arfarnu yn cael eu hymgorffori'n effeithiol mewn cynllun datblygu pwrpasol sy'n nodi'n glir sut y bwriedir eu rhoi ar waith. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn y ddarpariaeth barhaus a hefyd yn nhrefniadau'r lleoliad ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac asesu.

Mae'r adroddiad hunan-arfarnu o ansawdd da ac yn cyfleu darlun gonest a chywir o gryfderau'r lleoliad ynghyd â'r agweddau sydd angen gwelliant.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae gweithgareddau partneriaeth yn cyfrannu'n dda at gyflawniadau a lles plant. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad ac mae'r arweinydd yn cymryd camau gweithredol i'w cynnwys yn y gweithgareddau a drefnir. Mae llawlyfr rhieni yn darparu gwybodaeth ddefnyddiol am bolisiau a gweithdrefnau'r lleoliad ac yn cynnig arweiniad buddiol i rieni ynghylch sut y gallant helpu eu plant gartref.

Mae gan y lleoliad gysylltiadau cynhyrchiol iawn gyda'r ysgol gynradd ac mae trefniadau clir ar gyfer trosglwyddo plant i'r dosbarth meithrin ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

Mae'r cydweithio agos rhwng y lleoliad ac athrawes gynhaliol yr awdurdod lleol yn cyfrannu'n gadarnhaol iawn at wella ansawdd y ddarpariaeth a safonau. Mae'r ymarferwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn, yn rhannu gwybodaeth am blant ac yn gwybod gyda phwy i gysylltu a phryd os bydd angen cymorth ychwanegol ar blant.

Mae'r cysylltiadau da a ffurfiwyd gyda phobl a sefydliadau yn y gymuned, megis pwyllgor neuadd y pentref, wedi arwain at fanteision sylweddol i blant y lleoliad.

Rheoli adnoddau: Da

Mae staff ac adnoddau'n cael eu rheoli'n fedrus iawn gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli gan sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn llyfn ac yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn cael cefnogaeth gref gan raglen datblygiad proffesiynol parhaus a ddarperir yn bennaf gan yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin. Mae hyn wedi'u galluogi i gaffael gwybodaeth a medrau newydd ac i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn llwyddiannus.

Mae'r lleoliad yn datblygu'n dda fel cymuned ddysgu gref. Mae ymarferwyr yn agored iawn i syniadau newydd ac yn fodlon arbrofi gyda ffyrdd gwahanol o weithio a rhannu eu gwybodaeth gydag eraill o fewn y lleoliad.

Mae gan yr arweinydd a'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth gadarn o gyllideb y lleoliad ac maent yn blaenoriaethu gwariant yn unol ag anghenion datblygu'r lleoliad. Maent yn arfarnu penderfyniadau gwariant yn ofalus i wneud yn siŵr eu bod yn cael effaith uniongyrchol ar safonau cyflawniad, cynnydd a lles plant.

Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb. Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

Atodiad 2

Yr arolygydd cofnodol

Mr Wil Williams

Arolygydd Cofnodol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Rhestr termau

AGGCC	Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru.
Athro ymgynghorol awdurdod lleol	Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed.
Y Cyfnod Sylfaen	Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed
Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)	Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned.
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)	Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau.
Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)	Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref.
Meysydd Dysgu	Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol • medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu • datblygiad mathemategol • datblygu'r Gymraeg • gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd • datblygiad corfforol • datblygiad creadigol
Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)	Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth.

Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)	Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012.
Mudiad Meithrin	Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg.